

CYDRADDOLDEB



AC AMRYWIAETH

Cynllun Gweithredu 2022-2024

Ein Nod:

Y Coleg Mwyaf Rhagweithiol yng Nghymru ar gyfer Cynhwysiant erbyn 2024

Yng Ngholeg Cambria rydym yn deall pwysigrwydd gweithio'n frwd tuag at gael y coleg mwyaf cynhwysol, cyfartal a chefnogol i bawb. Rydym wedi ymrwymo i ymdrechu'n ddiflino i wella ein gwasanaethau a chreu coleg fydd yn gynhwysol i bawb.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn gosod cam newydd ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yng Ngholeg Cambria, wrth i ni anelu at ein nod o fod yn "y Coleg Mwyaf Rhagweithiol yng Nghymru ar gyfer Cynhwysiant erbyn 2024".

Os am weithio tuag at y nod hwn, bydd angen ymrwymiad holl gymuned Cambria. Rhaid i bob aelod o staff, dysgwr, rhanddeiliad a phartner ddeall ac ymuno â ni drwy ymarfer ethos cynwysoldeb.

Gyda'n gilydd byddwn yn gwneud Cambria yn wirioneddol gyfartal, amrywiol a chynhwysol.

Am ragor o wybodaeth, ewch i : equalityanddiversity@cambria.ac.uk

EIN MEYSYDD FFOCWS

**YMAGWEDD
WELEDIG, HOLISTIG
A
CHROESDORIADOL**

**POLISIÄU,
PROSESÄU A
LLYWODRAETHU**

**HYBU PARCH AC
ATAL RHAGFARN**

**YMRWYMIAD A
GWYBODAETH**

**DYSGU AC
ADDYSGU**

**PROFIAD
BYW**

YMAGWEDD WELEDIG, HOLISTIG A CHROESDORIADOL

- Byddwn yn datblygu dull gweithredu sy'n sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u gwreiddio'n gyfannol ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaeth.
- Bydd hyn yn sicrhau bod nodweddion unigol, a chroestoriad nodweddion yn cael eu hyrwyddo.
- Bydd ein hymagwedd yn weladwy i'n staff, ein dysgwyr a'n rhanddeiliaid, yn ogystal â'r gymuned ehangach.

BLWYDDYN 1

- Dyfeisio brand Gwasanaeth Cyngor Cydraddoldeb ar gyfer staff a myfyrwyr.
- Sefydlu adnoddau, cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar-lein ar gyfer y gwasanaeth.

- Dadansoddi adolygiad hygyrchedd o adeiladau'r coleg
- Creu canllawiau i ystadau ynghylch mynediad ac ymwybyddiaeth o safleoedd ffisegol.

- Amlinellu pa mor aml y ceir cynhwysiant ar hyn o bryd o fewn llwybrau nad ydynt yn addysg bellach e.e. AU, DSW, SSIE
- Ymgorffori'r tîm cynhwysiant (C&A, Iechyd Meddwl ac ADY) o fewn yr adrannau hyn i gefnogi eu gwaith
- Tîm cynhwysiant archwilio yn cynnig ystyried llwybrau nad ydynt yn rhai AB.

BLWYDDYN 2

- Gwerthuso data'r Gwasanaeth Cyngor Cydraddoldeb o'r flwyddyn gyntaf i ddadansoddi tueddiadau allweddol.
- Ehangu'r Gwasanaeth Cyngori ar Gydraddoldeb i randdeiliaid a phartneriaid e.e. cyflogwyr DSW, rhieni, llywodraethwyr ac ati.

- Sefydlu fframwaith ar gyfer pob nodwedd yn ein cyfleusterau ffisegol
- Sicrhau bod yr holl gynllunio am y dyfodol yn cael ei asesu ar gyfer cydraddoldeb

- Creu ymyrraeth wedi'i theilwra ym mhob llwybr heblaw AB ar gyfer gweithredu'r hyn a gynigir gan y tîm cynhwysiant
- Sicrhau bod pob polisi a phroses Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn addas ar gyfer llwybrau nad ydynt yn rhai AB

BLWYDDYN 1

- Cynyddu ein llais cyhoeddus ar faterion cydraddoldeb drwy rannu safbwyntiau ar faterion cenedlaethol
- Cynnwys mwy o faterion cydraddoldeb ar draws ein cyfryngau cymdeithasol
- Datblygu cyfres o ymgyrchoedd i gael myfyrwyr a staff i ganolbwyntio ar faterion cydraddoldeb allweddol

- Datblygu arweiniad ar ddigwyddiadau cydraddoldeb i staff a dysgwyr trwy gydol y flwyddyn a darparu cefnogaeth gydag adnoddau a gwybodaeth
- Arwain ar ddathlu a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer digwyddiadau allweddol

- Cynnal presenoldeb mewn sgysiau cenedlaethol am gydraddoldeb
- Parhau i gynnal rhwydweithiau a chysylltiadau

BLWYDDYN 2

- Gweithio gyda rhwydweithiau cydraddoldeb myfyrwyr a staff i ymgorffori profiad a lleisiau byw mewn gwaith ymgyrchu
- Lledaenu ein hymgyrchoedd i'r cyhoedd ehangach

- Cynyddu presenoldeb Coleg Cambria mewn digwyddiadau cymunedol sy'n ymwneud â chydraddoldeb
- Ymgysylltu â'r gymuned ehangach i ddod yn gyswllt ar gyfer digwyddiadau a gwybodaeth sy'n ymwneud â chynhwysiant yng Ngogledd Cymru

- Arwain ar brosiectau a meysydd allweddol mewn trafodaeth ehangach
- Dod yn hyrwyddwyr cydraddoldeb o fewn y sector

YMRWYMIAD A GWYBODAETH

- Byddwn yn sicrhau bod pob aelod o gymuned ein coleg yn wirioneddol ymroddedig i gynnal cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein sefydliad.
- Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ein holl staff a dysgwyr i ymgorffori cydraddoldeb yn y coleg.
- Byddwn yn rhannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd gyda'r sector a'r gymuned ehangach.

BLWYDDYN 1

- Creu rhaglen hyfforddi staff gydlynol a chref
- Datblygu adnoddau a phecynnau cymorth
- Diweddarau'r papur briffio gorfodol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Creu hyfforddiant penodol i reolwyr
- Cynnwys mwy o gydraddoldeb yn ystod dyddiau sefydlu staff

- Cynnal adolygiad o lenyddiaeth y sector a dadansoddi unrhyw fylchau allweddol mewn gwybodaeth
- Cynnal prosiectau ymchwil i ddefnyddio ein meysydd arbenigedd penodol a llenwi bylchau yng ngwybodaeth y sector
- Treialu Interniaeth Ymchwil i Fyfirwyr i ddysgwyr dros yr haf i gefnogi prosiectau ymchwil yn ymwneud â chydraddoldeb

BLWYDDYN 2

- Creu cynllun achredu ar gyfer staff sy'n dilyn hyfforddiant cydraddoldeb ac ymgysylltu â mentrau
- Arbrofi gyda 'Cylchoedd Dysgu' staff ar faterion cydraddoldeb allweddol i hybu cydweithio

- Cyhoeddi a chyflwyno ar ddysgu o brosiect ymchwil haf blwyddyn un
- Parhau â'r Interniaeth Ymchwil i Fyfirwyr, ac archwilio'r posibilrwydd o integreiddio staff academiaidd i gefnogi'r prosiect hwn

BLWYDDYN 1

- Cynnig hyfforddiant arweinyddiaeth ac ymgyrchu i'n myfyrwyr sy'n arweinwyr cydraddoldeb
- Cyfathrebu â dysgwyr am faterion cydraddoldeb allweddol, sut i ymgysylltu â phrosesau gwneud newidiadau, ac addysgu am wleidyddiaeth sy'n canolbwyntio ar hunaniaeth

- Dylunio a chyflwyno cymhwyster arbrofol 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' heb ei achredu ar gyfer ein staff

BLWYDDYN 2

- Cefnogi arweinwyr myfyrwyr i ymgyrchu'n genedlaethol drwy grwpiau perthnasol e.e. UCM
- Sefydlu grŵp ymgyrchu myfyrwyr i gefnogi ymgyrchoedd ar draws y coleg ac ymgysylltu â'r gymuned leol

- Ehangu ar y cymhwyster 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' i greu cymhwyster achrededig masnachol sy'n hygyrch i'r cyhoedd

POLISIÄU, PROSESÄU A LLYWODRAETHU

- Byddwn yn sicrhau bod ein polisiau, ein prosesau a'n llywodraethu wedi'u harchwilio'n rhagweithiol i weld a ydynt yn gynhwysol.
- Byddwn yn sicrhau bod ein polisiau yn addas ar gyfer holl aelodau ein cymuned.
- Byddwn yn sicrhau bod cynhwysiant ac amrywiaeth yn cael eu gwreiddio drwyddi draw fel bod gennym fel sefydliad ffocws ar wella cydraddoldeb.

BLWYDDYN 1

- Gwreiddio Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb yn ein holl wasanaethau a'n cynigion
- Adolygu'r broses AEC
- Creu canllawiau a chyngor wedi'u diweddarau ar AEC
- Datblygu gwybodaeth am groestoriadedd

- Trefnu'r polisiau sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth fel eu bod i gyd yn gyson
- Sefydlu polisi C&A penodol
- Adolygu ein polisiau cyfredol ynghylch C&A

- Archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth cyfredol Llywodraethwyr a'u hymwneud â mentrau C&A
- Sefydlu hyfforddiant Cydraddoldeb i Lywodraethwyr

BLWYDDYN 2

- Creu offeryn archwilio ar gyfer pob gwasanaeth ac ardal i asesu'r hyn a gynigir ganddynt ar gyfer pob nodwedd
- Sicrhau bod croestoriad wedi'i wreiddio mewn Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb
- Tanysgrifio i Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol Cymru

- Llunio cyfres o ganllawiau sy'n darparu ar gyfer gwella a hyrwyddo cymorth ar gyfer pob nodwedd. Rhaid i hyn gynnwys staff a dysgwyr.

- Cynnig Gwasanaeth Cyngor Cydraddoldeb i Lywodraethwyr
- Ymgorffori trafodaethau strategol a diweddariadau ar gydraddoldeb o fewn y corff llywodraethu

BLWYDDYN 1

- Diweddarau systemau ar gyfer casglu data dysgwyr ar wahanol nodweddion
- Casglu data staff ar Niwroamrywiaeth i gynnig cymorth ac arweiniad wedi'u teilwra
- Treialu arolwg 'LIFE' i staff

- Diweddarau côd ymddygiad y myfyrwyr i gynnwys Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i gael eu gwreiddio yn yr holl lywodraethu a chynllunio strategol
- C&A i fod yn eitem safonol ym mhob cyfarfod tîm a chyfarfod cynllunio strategol
- C&A i fod yn safonol yng nghyfarfodydd y JNCC a'r Cydlynnydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i fod yn bresennol

BLWYDDYN 2

- Dadansoddi data arolwg LIFE ar draws holl nodweddion dysgwyr sy'n ymwneud â lles a chymorth
- Ehangu arolwg LIFE i'r holl staff
- Dadansoddi data staff a dysgwyr mewn cyferbyniad â data cyfrifiad 2021

- Creu rhaglen werthoedd ar gyfer y coleg cyfan sy'n ategu'r côd ymddygiad ac sy'n canolbwyntio ar barch a mynd i'r afael ag aflonyddu

DYSGU AC ADDYSGU

- Byddwn yn darparu addysg wirioneddol deg a chynhwysol lle mae pob dysgwr waeth beth fo'i gefndir yn cael ei gefnogi i gyflawni.
- Byddwn yn creu cwricwlwm cwbl gynhwysol sy'n adlewyrchu ein dysgwyr a'u nodweddion.
- Byddwn yn sicrhau bod llais y dysgwyr yn rhan annatod o'r broses hon fel bod ein haddysgu a'n dysgu yn gynrychioliadol o'n cymuned amrywiol.

BLWYDDYN 1

- Dadansoddi'r bylchau cyrhaeddiad ar draws y coleg a gwneud cynnydd o'r targedau gorfodol
- Rhannu arfer gorau ar draws adrannau
- Cefnogi hyn trwy archwilio pob maes cwricwlwm ar gyfer unrhyw fylchau cyrhaeddiad penodol, a'u mentrau presennol

- Gofyn a dadansoddi cwestiynau ar gynwysoldeb y cwricwlwm ar ffurflenni adborth myfyrwyr
- Datblygu pecyn cymorth cwricwlwm arallgyfeirio i gefnogi meysydd cwricwlwm
- Ymgorffori cydraddoldeb yn y broses ADRE

- Cynnig adnoddau ac arweiniad i Hyfforddwyr Cynnydd ar elfennau sy'n ymwneud ag A&C o raglen MADE
- Cynnwys sesiynau peilot cydraddoldeb yn y cwricwlwm gofal personol

BLWYDDYN 2

- Creu cynlluniau gweithredu a chymorth ar gyfer pob maes cwricwlwm yn seiliedig ar unrhyw fylchau cyrhaeddiad penodol, a mabwysiadu targedau ar gyfer cau'r bylchau hyn

- Archwilio meysydd cwricwlwm ar gyfer amrywiaeth a chynnig cymorth a nodau wedi'u targedu i amrywio'r cwricwlwm

- Cynnig sesiynau cydraddoldeb a ddarperir gan y Cydlynnydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar draws y cwricwlwm gofal personol ym mhob maes

HYBU PARCH AC ATAL RHAGFARN

- Byddwn yn creu amgylchedd lle caiff rhagfarn ac aflonyddu eu herio'n effeithlon, lle na chânt eu goddef a lle y delir â hwy'n ddigonol.
- Byddwn yn sicrhau bod pob aelod o gymuned ein coleg yn deall ac yn hyrwyddo ein hagwedd o ddim goddefgarwch tuag at ragfarn nac aflonyddu.
- Byddwn yn hyfforddi ac yn addysgu ein holl staff a dysgwyr ar sut i nodi, deall ac atal rhagfarn ac aflonyddu drwy'r coleg.

BLWYDDYN 1

- Archwilio'r broses adrodd ar gyfer staff a myfyrwyr am achosion o aflonyddu, troseddau casineb a chamymddwyn rhywiol
- Gwella ymwybyddiaeth myfyrwyr a staff o systemau adrodd
- Adolygu a diweddarau polisiau bwlio ac aflonyddu

- Archwilio'r broses disgyblu staff a myfyrwyr mewn perthynas â'r materion hyn
- Datblygu hyfforddiant ar aflonyddu, troseddau casineb a chamymddwyn rhywiol ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â disgyblu ac ymchwilio

- Archwilio pa gymorth sydd ar gael i staff a myfyrwyr sydd wedi datgelu digwyddiad
- Cydlynu'r cymorth hwn ac alinio â'r broses adrodd yn ôl.

BLWYDDYN 2

- Creu system adrodd gadarn a chyfeillgar i fyfyrwyr ar gyfer aflonyddu, troseddau casineb a chamymddwyn rhywiol
- Dadansoddi ymarferoldeb cyfuno prosesau adrodd staff a myfyrwyr
- Dod yn ganolfan riportio troseddau casineb

- Diweddarau'r prosesau disgyblu i sicrhau eu bod yn gallu darparu ar gyfer y materion penodol hyn
- Archwilio'r prosesau mewn perthynas ag aflonyddu rhwng staff a myfyrwyr

- Archwilio pa gymorth sydd ar gael i staff a myfyrwyr sydd wedi'u cyhuddo oherwydd digwyddiad penodol
- Cydlynu'r gefnogaeth hon ac alinio â'r broses ddisgyblu

BLWYDDYN 1

- Hyfforddiant peilot ar ragfarn, aflonyddu, troseddau casineb a chamymddwyn rhywiol i dimau perthnasol e.e. diogelu, iechyd meddwl, gwasanaethau cymorth

- Cynnal ymgyrch ar ragfarn, aflonyddu, troseddau casineb a chamymddwyn rhywiol yn erbyn myfyrwyr
- Ymchwilio i sylfaen wybodaeth gyfredol ein dysgwyr
- Dysgu o'r adroddiad Estyn sydd ar ddod am aflonyddu rhywiol a data perthnasol arall

- Gweithio o fewn prosiect cydweithredol i ddysgu oddi ar arfer gorau yn y sector

BLWYDDYN 2

- Ehangu hyfforddiant i'r holl staff ar ragfarn, aflonyddu, troseddau casineb a chamymddwyn rhywiol

- Ychwanegu parch a chydsyniad i gwricwlwm rhaglen MADE
- Creu rhaglen hyfforddi i fyfyrwyr ar wahanol elfennau o aflonyddu i'w defnyddio mewn sesiynau GP

- Ehangu ar brosiect cydweithredol, neu arwain ar ein canlyniadau ein hunain o flwyddyn un

PROFIAD BYW

- Byddwn yn sicrhau bod ein holl waith cydraddoldeb yn cael ei arwain gan aelodau o gymunedau ymylol, a bod lleisiau ein dysgwyr a'n staff yn cael eu rhoi ar flaen ein cynnydd.
- Byddwn yn codi lleisiau ein cymuned amrywiol i sicrhau ein bod yn dysgu o brofiad byw.
- Byddwn yn cynnig cyfleoedd i'n staff a dysgwyr o bob cefndir dyfu a datblygu.

BLWYDDYN 1

- Sefydlu a hyfforddi Swyddogion Cydraddoldeb Myfyrwyr ac Arweinwyr Cydraddoldeb Myfyrwyr yn drylwyr
- Creu Fforwm Cydraddoldeb Myfyrwyr i anfon gwybodaeth i'r Pwyllgor C&A
- Cefnogi a dadansoddi'r Grwpiau Myfyrwyr LHDTC+ presennol

- Diwygio'r Broses Rhwydwaith Staff
- Sefydlu Fforwm Cydraddoldeb Staff i'r holl staff roi adborth ac ymgysylltu ag o

- Creu canllawiau ar gyfer Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar gyfer pob hysbyseb swydd, disgrifiad swydd a chyfweliad
- Datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfweliadau cynhwysol a rhagfarn anymwybodol i bawb sy'n ymwneud â chyfweld

BLWYDDYN 2

- Creu Grŵp Ymgyrchu Myfyrwyr
- Ehangu grwpiau cymunedol myfyrwyr yn seiliedig ar angen ar draws y safleoedd gyda chefnogaeth y Cynorthwyrwyr Lles

- Gweithredu system wobrwyo a chydnabod ar gyfer staff sy'n cefnogi mentrau cydraddoldeb yn y coleg
- Datblygu Hyrwyddwyr Cydraddoldeb staff ar bob safle i dynnu sylw at faterion penodol i safleoedd

- Gweithio gyda recriwtwyr sy'n arbenigo mewn arallgyfeirio i recriwtio arweinwyr a llywodraethwyr
- Sefydlu cynllun arweinyddiaeth staff yn benodol ar gyfer y sawl sydd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein harweinyddiaeth